Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

26 Mai 2023

Annwyl gyfeillion,

Diolch i bawb ohonoch a ymatebodd i'n hymgynghoriad ar ein trefniadau ar gyfer arolygu gwaith ieuenctid. Cawsom ymateb cadarnhaol ac mae eich diddordeb yn y broses, a'ch ymgysylltiad â hi, wedi bod yn galonogol. Diolch am roi adborth ac am rannu eich syniadau am ddulliau arolygu i'r dyfodol.

Tybiais y gallai fod yn ddefnyddiol amlinellu camau nesaf ac amserlen y gwaith hwn. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n dadansoddi'r ymatebion a chaiff y prif negeseuon eu hadlewyrchu mewn adroddiad byr ar yr ymgynghoriad. Ein nod yw cyhoeddi'r adroddiad hwn ar ein gwefan erbyn canol Mehefin.

Byddwn yn dwyn grŵp cyfeirio o randdeiliaid ynghyd i ystyried y negeseuon a darparu mwy o fanylion wrth i ni ddatblygu ein cynigion, a byddwn yn anfon y gwahoddiadau at yr unigolion a fydd yn rhan o'r grŵp hwn ar ôl hanner tymor. Bydd y grŵp cyfeirio o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr o'n grŵp rhanddeiliaid allweddol, a gobeithio y bydd yn garreg ateb werthfawr ac yn helpu i gyfrannu at ddatblygu ein trefniadau. Byddwn yn sicrhau cynrychiolaeth o'r sector gwirfoddol yn y broses er mwyn ystyried yn benodol sut y gall trefniadau arolygu rhoi sylw teilwng i waith ieuenctid mewn lleoliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol.

Bydd y grŵp cyfeirio yn cyfarfod o leiaf bob tymor i'n helpu gyda'r dasg hon. Ar ôl i ni ddatblygu dogfen arweiniad drafft, byddwn yn ei rhannu ac yn ymgynghori arni gyda'n rhanddeiliaid ehangach. Ein nod yw cynnal arolygiad peilot yn nhymor y gwanwyn 2024, gwerthuso'r dull, ac wedyn gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i'r arweiniad. Yn ystod tymor yr haf 2024, byddwn yn hyfforddi arolygwyr cymheiriaid ar gyfer y cylch arolygiadau nesaf, a fydd yn dechrau yn hydref 2024.

Rydym yn ymwybodol bod agweddau gwahanol i'w hystyried wrth arolygu darpariaeth dan arweiniad yr awdurdod lleol a/neu ddarpariaeth y sector gwirfoddol. Un o'n gyrwyr yw'r angen am roi sicrwydd i Lywodraeth Cymru ac i'r cyhoedd yn gyffredinol fod y cyllid ar gyfer gwasanaethau ieuenctid yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl ifanc. Mae sawl opsiwn y gallem eu dilyn i'n galluogi i wneud hyn, a byddai'n dda clywed eich barn am y rhain, maes o law.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid a phobl ifanc eu hunain wrth ddatblygu a phrofi ein dulliau arolygu.

Gobeithio bod yr uchod yn rhoi digon o wybodaeth i chi yn ystod y cam hwn o'r broses. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda chi er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn cefnogi gwelliant yng ngwaith ieuenctid, ble bynnag mae'n digwydd, er mwyn sicrhau deilliannau gwell ar gyfer ein pobl ifanc.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Cofion gorau,

**Jassa Scott**
Cyfarwyddwr Strategol